



**PWYLLGOR CYSTADLAETHAU
DYDD MAWRTH 11eg IONAWR 2022
DRWY ZOOM, 7.00yh**

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Sian Healey

IS-GADEIRYDD: Miss Sioned Davies

PRESENNOL: Sian Healey (Cadeirydd Pwyllgor), Sioned Davies (Is-Gadeirydd Pwyllgor), Gwen Thomas (Eryri), Sion Evans (Sir Gâr), Ffion Rees (Sir Gâr), Carys Phillips (Sir Benfro), Delun Evans (Sir Benfro) Manon Williams (Meirionnydd), Will Hughes (Ynys Môn), Edna Jones (Trefnydd Sir Ynys Môn), Elizabeth Swancott (Maesyfed) Gwyneth Thomas (Trefnydd Sir Morgannwg), Kate Thomas (Morgannwg), Deryn Evans (Brycheiniog), Emma Powell (Brycheiniog), Eloisa Isaac (Maldwyn), Katie Court (Ex-Officio), Owain Lewis (Trefnydd Sir Sir Benfro), Caryl Hâf Jones (Cadeirydd CFFI Cymru), Hefin Evans (Is-Gadeirydd CFFI Cymru), Elen Williams (Morgannwg), Gemma Owen (Maldwyn)

HEFYD YN BRESENNOL: Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau CFFI Cymru)

C/42/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd, Sian Healey, bawb i is-bwyllgor Cystadlaethau a gofynodd i bawb gyflwyno eu hunain ar y sgrin.

Nododd Sian hefyd fod y cyfarfod yn cael ei recordio.

C/43/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oddiwrth: Emma Rees (Brycheiniog); Angharad Jones (Meirionnydd)

C/44/2022 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu rhannu ar sgrin a'u cadarnhau fel record gwir a chywir

Cynigydd: Deryn Evans, Brycheiniog

Eilydd: Sion Evans, Sir Gâr

C/45/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

PWYNTIAU GWEITHREDU	COMMENT
Pwynt Gweithred 1: CFFI Cymru i ddanfon tystysgrifau i aelodau llwyddiannus yn y cystadlaethau Diwrnod Amaeth rhithiol.	Cymeradwywyd gan y Cyngor. Tystysgrifau wedi cyrraedd ac ar ôl eu hysgrifennu, byddant yn cael eu hanfon i swyddfeydd y sir.
Pwynt Gweithred 2: Cadeirydd i gyflwyno llythyr i ymateb i'r aelod ynglyn a Chystadleuaeth Prif Wyn	Wedi ei gyflawni
Pwynt Gweithred 3: CFFI Cymru i gylchredeg holiaduron Prif Wyn a Biff Ifanc i gael adborth ar y cystadlaethau.	Wedi ei gyflawni
Pwynt Gweithred 4: CFFI Cymru i siarad gyda pwyllgor y Ffair Aeaf ynglyn a chystadleuaeth y Prif Wyn.	Wedi ei gyflawni. Rydym wedi trefnu i weithio gyda'r Cyfarwyddwr Anrhydeddus Defaid i barhau â'r trafodaethau.
Pwynt Gweithred 5: CFFI Cymru i gynnwys adran o dan 21 i gystadlaethau Athletau ac i gylchredeg y rheolau sydd wedi eu cadarnhau.	Wedi ei gyflawni

`Doedd dim materion pellach yn codi o'r cofnodion.

C/46/2022 GOHEBIAETH

`Doedd dim eitemau o ohebiaeth.

C/47/2022 I GADARNHAU TREFNIADAU

Gwyl Adloniant 12fed a 13eg Mawrth 2022 – diweddarodd Sian y pwyllgor fod cyfarfod argyfwng wedi cael ei gynnal ynglyn a'r newid diweddar i gyfyngiadau Covid 19. Yn dilyn pleidlais, cytunwyd na fyddai'r Wyl Adloniant yn cael ei chynnal yn 2022. Mae rhai siroedd yn dal i gynnal cystadleuaeth Pantomeim a phenderfynwyd y byddai'r siroedd hyn yn ffilmio eu perfformiadau ac wedyn danfon fideo at feirniad i benderfynu pa ddwy sir fyddai'n cynrychioli Cymru yn FfCCFFI

Fe fydd CFFI Cymru yn mynd a chynnig i FfCCFFI i ofyn i'r Pantomeim gael ei gynnal eto yn 2023. Gofynnodd Sian i'r Siroedd hefyd ddanfon llythyr i gefnogi eu cynnig.

Cynigodd Deryn y dylai CFFI Cymru ofyn i rhai ardaloedd yn Lloegr am gefnogaeth i'r cynnig i gynnal Pantomeim eto yn 2023. Cytunwyd ar hyn.

Gofynnodd Sian i'r pwyllgor am ddyddiad pan ddylai cystadlaethau Aelod y Flwyddyn a Côr y Sioe gael eu cynnal gan fod y rhain i fod i gymryd lle yn yr Wyl Adloniant.

Cytunwyd y byddai Aelod y Flwyddyn y cael ei gynnal ar ddiwrnod Siarad Cyhoeddus a fydd ar ddydd Sul Mawrth 27ain.

Cynigydd: Elizabeth Swancott, Maesyfed

Eilydd: Gwen Thomas, Eryri

Trafodwyd y gallai cystadleuaeth Côr y Sioe gael ei gynnal ar y Diwrnod Maes neu Diwrnod Chwaraeon. Dylai bwriad i ymgeisio gael eu danfon i swyddfa CFFI Cymru erbyn dydd Gwener 21ain Ionawr 2022.

Pwynt Gweithred 1: CFFI Cymru i symud cystadlaethau Aelod y Flwyddyn i'r Diwrnod Siarad Cyhoeddus. Rheolau diweddaraf i'w danfon i'r Siroedd.

Pwynt Gweithred 2: CFFI Cymru i ofyn am fwriad i ymgeisio am gystadleuaeth Côr y Sioe erbyn dydd Gwener 21ain Ionawr 2022.

Pwynt Gweithred 3: CFFI Cymru i ddanfon cynnig i FfCCFFI i gynnal Pantomeim yn 2023 yn lle Drama.

C/48/2022 CADARNHAU RHESTR A RHEOLAU CYSTADLAETHAU AM 2022 / 2023

1. Eisteddfod 2022 – dan ofal Sir Benfro

Trafododd y pwyllgor y dyddiad a safle'r Eisteddfod. Er yn flaenorol, cytunwyd y byddai lleoliad yr Eisteddfod yn ganolog, nid yw lleoliad y De, Neuadd Brangwyn ar gael. Felly, fe gynhelir yr Eisteddfod ar y 19eg Tachwedd 2022 yn Ysgol Abergwaun, Sir Benfro.

Cynigydd: Sion Evans, Sir Gâr

Eilydd: Carys Phillips, Sir Benfro

Nododd Katie y dylai CFFI Cymru gysylltu gyda'r safleoedd canolog i'w archebu am y blynyddoedd nesaf i sicrhau eu bod ar gael.

Cafwyd trafodaeth ynglyn a lleoliad yn y gogledd. Cytunwyd y dylai CFFI Cymru gysylltu gyda Dyfrig o Telesgop i weld a oedd unrhyw wybodaeth gydag ef ac i edrych ar Faes Sioe Sir Fôn a Venue Cymru fel safleoedd a allai fod yn addas.

Rhannwyd y rheolau drafft gyda'r pwyllgor a gofynodd Sian am adborth gan y Siroedd.

Gofynodd Manon ar ran Meirionnydd pam nad oedd cystadleuaeth Cerdd Dant wedi ei gynnwys. Ar ôl trafodaeth gofynodd y pwyllgor i Sir Benfro ychwanegu Cerdd Dant i'r rhaglen gan fod yna gwpan bwrpasol Cerdd Dant i'w wobrwyo yn yr Eisteddfod.

Gofynodd Gemma, Maldwyn, pam fod y gystadleuaeth Dawns yn "ddawnsio creadigol" eleni gan yn ddiweddar, fod ceisiadau i'r gystadleuaeth yma'n isel. Ar ôl trafodaeth awgrymwyd y byddai Sir Benfro yn ystyried ei newid i "dawns ategolion".

Esboniodd Sioned, Ceredigion, y byddai rheolau'r Eisteddfod yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf gan nad oedd rhai siroedd wedi cael eu cyfarfod sirol. Cytunwyd y bydda'r Eisteddfod yn cael ei roi fel eitem agenda yn y cyfarfod nesaf.

Nododd Sian bod raid i amseru'r Meim gael ei egluro os yw yn cynnwys gosod a chlirio'r llwyfan.

Gofynnodd Sioned, Ceredigion, am y rheswm pam fod yna thema i'r gystadleuaeth sgetsh. Eglurodd Sir Benfro eu bod fel sir, wedi dewis i ychwanegu thema er mwyn annog clybiau i fod yn fwy creadigol ac ddim yn defnyddio hen sgetshis.

Diolchodd Sian i Sir Benfro am baratoi'r rheolau i'r cyfarfod hwn. Cytunwyd y dylai bob sir ddanfon eu sylwadau i Rhianwen, CFFI Cymru. Gobeithir y caiff y rheolau eu terfynu a'u rhyddhau erbyn wythnos y Sioe Amaethyddol (Gorffennaf).

Pwynt Gweithred 4: CFFI Cymru i gadarnhau y tre safle canolog ac edrych i archebu'r rhain o flaen llaw.

Pwynt Gweithred 5: CFFI Cymru i ofyn i'r siroedd am eu adborth i'r Eisteddfod er mwyn i Sir Benfro gael eu trafod cyn y cyfarfod nesaf.

2. Y Ffair Aeaf 2022

Cafodd cystadlaethau o 2021 eu rhannu ar y sgrin i'r pwyllgor.

Nodwyd y dylai'r gystadleuaeth i addurno "coeden" Nadolig ei newid i "dorch" i aelodau o dan 28 ac "Addurno Boncyff Nadolig" i aelodau o dan 18. Fe fydd y ddwy yn gystadleuaeth un aelod.

Cynigydd: Eloisa Isaac, Maldwyn

Secunder: Elen Williams, Morgannwg

Cafwyd trafodaethau ynglyn a'r gystadleuaeth fideo hyrwyddol. Nodwyd na allai amryw o ymgeisiadau 2021 eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol gan eu bod yn cynnwys cerddoriaeth dan drwydded.

Cytunwyd i gael trafodaethau gyda Pwyllgor y Ffair Aeaf gan iddynt gefnogi'r gystadleuaeth yn wreiddiol. Cynnigwyd y gellir newid y gystadleuaeth i fideo yn hyrwyddo cynyrchwyr lleol.

Cytunodd y pwyllgor i CFFI Cymru gael sgwrs gyda Cywain i gael gweld sut i ddatblygu cystadleuaeth y Ffair Aeaf a oedd yn lwyddiant yn y Ffair yn 2021.

Fe gaiff y fideo hyrwyddo a chystadleuaeth Cywain eu trafod bellach yn y cyfarfod nesaf.

Pwynt Gweithred 6: CFFI Cymru i gysylltu gyda pwyllgor y Ffair Aeaf a Cywain ac wedyn i weithio ar rheolau drafft y Ffair Aeaf 2022 cyn y cyfarfod nesaf.

3. Y Sioe Frenhinol 2023

Cafodd gynigion eu rhannu ynglyn a thema i Sioe Frenhinol 2023, yn cynnwys:

- Mynydd a'r Mor
- Y ffordd i net sero....
- CFFI
- Y 7 thema sy'n gynnwysiedig yn actau Cenhedlaeth Dyfodol Cymru

Cytunwyd y dylai'r siroedd i gyd drafod themâu gyda'u aelodau a dod a chynigion yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Unwaith fydd y thema wedi ei gadarnhau, fe fydd y pwyllgor yn cytuno ar y cystadlaethau.

C/49/2022 EITEMAU AGENDA ITEMS A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Fe gynhelir y cyfarfod nesaf ar 8fed Mawrth 2022 drwy Zoom.

Dylai eitemau Agenda gynnwys:

- Cor y Sioe
- Eisteddfod 2022
- Y Ffair Aeaf 2022
- Sioe Frenhinol 2023
- Cystadlaethau Cenedlaethol

C/50/2022 UNRHYW FUSNES ARALL

Nododd Sian na fyddai Prifysgol Aberystwyth yn gallu cynnal y gystadleuaeth athletau ar y Diwrnod Chwaraeon. Cytunodd y pwyllgor y dylai Diwrnod Chwaraeon symud lleoliad. Cynnigwyd ceisio Canolfan Hamdden Aberhonddu neu Canolfan Hamdden y Drenwydd. Mae CFFI Cymru i wneud ymholiadau i weld beth sydd ar gael.

'Roedd gan Ffion, Sir Gâr, gwestiwn ynglyn a Barnu Stoc yn y Sioe Amaethyddol a pham fod barnu Gwartheg Biff yn digwydd am ddwy flynedd yn olynol. Eglurwyd fod rheolau 2022 yn reolau gwreiddiol 2020 ac eu bod wedi cael ei gyrru ymlaen.

Gofynnodd Manon, Meirionnydd, os oeddynt yn golygu cynnal cystadlaethau Siarad Cyhoeddus mewn ffurf wahanol o achos cyfyngiadau presennol. Cafwyd trafodaethau ynglyn a dim cynulleidfa neu rhannu'r cystadlaethau ar wahanol nosweithiau.

Cododd Rhiannon, Ceredigion, dyddiad y diwrnod cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus gan fod dau wahanol ddyddiad wedi cael eu cylchredeg. Nodwyd fod 27ain Mawrth yn Sul y Mamau a hefyd yr un diwrnod a Hanner Marathon Caerdydd.

Gofynnodd Elen, ar ran Morgannwg, gwestiwn ynglyn a dyddiadau ymgeisio. Mae rhai cystadlaethau yn Morgannwg yn cymryd lle ar ôl y dyddiad cau. Mae hyn yn cynnwys Siarad Cyhoeddus a Diwrnod Maes. Nododd Wil y bydd gan Sir Fôn yr un broblem gyda Siarad Cyhoeddus. Cytunodd y pwyllgor y gallai Morgannwg a Sir Fôn ddanfôn ceisiadau hwyr y tro hwn.

Dymunodd Deryn, Brycheiniog, pob lwc i'r Siroedd sydd yn mynd ymlaen gyda'u Pantomemim a gobeithio fydd popeth yn mynd yn iawn.

Nododd Rhianwen fod Tracy wedi bod mewn cysylltiad ynglyn a chystadleuaeth Cneifio gyda Llafn. Fe fydd raid i unrhyw gystadleuwr sy'n dod trwodd i'r Sioe Frenhinol gael dystysgrif cymhwyster y Sioe Frenhinol. Fe fydd y Sioe Frenhinol yn trefnu'r hyfforddiant yma ddechrau mis Gorffennaf. Cytunodd y pwyllgor i ychwanegu hyn i'r rheolau.

Nid oedd unrhyw faterion eraill a diolchodd Sian i bawb am eu hamser ac ymroddiad gan ddymuno pob lwc i'r rhai oedd yn parhau gyda'r Pantomeim. Datganwyd y cyfarfod ar gau am 8.29yh.

Pwynt Gweithred 7: CFFI Cymru i edrych i mewn at gynnal Diwrnod Chwaraeon yn Aberhonddu neu'r Drenewydd yn lle Aberystwyth.

Pwynt Gweithred 8: CFFI Cymru i ychwanegu'r Dystysgrif Gymhwyster i reolau'r Sioe Frenhinol a'i gylchredeg i'r siroedd.

GWEITHRED	SYLWADAU
Pwynt Gweithred 1: CFFI Cymru i symud cystadlaethau Aelod y Flwyddyn i'r Diwrnod Siarad Cyhoeddus. Rheolau diweddaraf i'w danfon allan i'r siroedd.	Wedi ei gwblhau
Pwynt Gweithred 2: CFFI Cymru i ofyn am fwriad o ymgeisio i gystadleuaeth Côr y Sioe erbyn dydd Gwener 21ain Ionawr 2022.	Wedi ei gwblhau
Pwynt Gweithred 3: C Ffi Cymru i ddanfôn cynnig i FfCCFFI i gael cystadleuaeth Pantomime yn 2023 yn lle Drama.	Wedi'i gwblhau ond penderfynodd FfCCFFI yn erbyn y cynnig. Adloniant i'w gynnal yn lle hynny yn 2023.
Pwynt Gweithred 4: CFFI Cymru i gadarnhau tri lleoliad canolog ac i'w archebu o flaen llaw.	Mae'r tri lleoliad wedi'u cadarnhau fel - Gogledd – Pafiliwn Rhyl Canol – Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid De – Neuadd Brangwyn, Abertawe
Pwynt Gweithred 5: CFFI Cymru i ofyn i'r siroedd am eu adborth i'r Eisteddfod er mwyn i Sir Benfro gael eu trafod cyn y cyfarfod nesaf.	Wedi ei gwblhau

Pwynt Gweithred 6: CFFI Cymru i gysylltu gyda pwyllgor y Ffair Aeaf a Cywain ac wedyn i weithio ar reolau drafft Ffair Aeaf 2022 cyn y cyfarfod nesaf.	Wedi gofyn y ddau, dim ymateb gan y Ffair Aeaf. Mae Cywain yn gadael i ni wybod eu syniadau cyn yr 8fed o Fawrth.
Pwynt Gweithred 7: CFFI Cymru i edrych ar gynnal Diwrnod Chwaraeon yn Aberhonddu neu y Drenewydd yn lle Aberystwyth.	Wedi ei gwblhau. Yn awr i'w gynnal yn Aberhonddu, rheolau newydd wedi'u cylchredeg.
Pwynt Gweithred 8: CFFI Cymru i ychwanegu Tystysgrif Cymhwyster i reolau'r Sioe Frenhinol a'u cylchredeg i'r siroedd.	Wedi ei gwblhau.